# LLOYD, ROBERT ('Llwyd o'r Bryn '; 1888 - 1961), eisteddfodwr, diddanwr ac amaethwr

**Enw:** Robert Lloyd
**Ffugenw:** Llwyd O'r Bryn
**Dyddiad geni:** 1888
**Dyddiad marw:** 1961
**Priod:** Annie Lloyd (née Williams)
**Plentyn:** Dwysan Rowlands (née Lloyd)
**Rhiant:** Winifred Lloyd (née Roberts)
**Rhiant:** John Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** eisteddfodwr, diddanwr ac amaethwr
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Natur ac Amaethyddiaeth; Perfformio
**Awdur:** David Tecwyn Lloyd

Ganwyd ym Mhenybryn, Bethel, Llandderfel, Meirionnydd, 29 Chwefror 1888, yn blentyn ieuengaf John a Winifred Lloyd, a bedyddiwyd ef gan Michael D. Jones. Fe'i haddysgwyd yn ysgol y Sarnau ac ar ôl cyfnod o ffermio gyda'i dad, priododd yn 1913 ag Annie Williams, Derwgoed, Llandderfel. Ffermio 'r Derwgoed y bu wedyn nes ymddeol yn 1944. Yn y cyswllt hwn, yr oedd gyda'r cyntaf yng Nghymru i symbylu arbrofi gydag imwneiddio buchesi rhag TB (gweler Richard Phillips, *Pob un â'i gwys* (1970), 86).

Am y rhan fwyaf o'i oes bu'n arweinydd a beirniad mewn llu o eisteddfodau gogledd a chanolbarth Cymru; bu'n un o hyrwyddwyr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf Urdd Gobaith Cymru yng Nghorwen yn 1929. Rhwng 1938 ac 1950 ef oedd arweinydd ffraeth Parti Tai'rfelin (gweler Robert Roberts) a fu'n cynnal cyngherddau trwy Gymru a chyda chymdeithasau Cymraeg yn Lloegr. Cymerth ran yn fynych hefyd mewn rhaglenni darlledu a theledu.

Yr oedd ganddo ddawn y cyfarwyddiaid i adrodd stori ar lafar ac ar lyfr. Gwelir hyn yn ei gyfrol hunangofiant *Y Pethe* (1955), teitl a ddaeth wedyn i sefyll am y gwerthoedd a'r traddodiadau a gysylltir â'r bywyd Cymraeg ar ei orau. Yn 1966 cyhoeddwyd cyfrol o'i lythyrau, sef *Diddordebau*, wedi eu golygu gan ei nai, Trebor Lloyd Evans , a chyhoeddwyd casgliad o'i ysgrifau i'r *Welsh Farm News* a chyfnodolion eraill, *Adlodd Llwyd o'r Bryn*, gan ei ferch, Dwysan Rowlands, yn 1983. Ar ôl ymddeol, bu hefyd yn darlithio ar fywyd a diwylliant gwledig mewn llu o ganolfannau. Ceir disgrifiadau ohono gan Robin Williams yn *Y tri Bob* (1970) ac yn *Portreadau'r Faner* (d.d.). Bu farw 28 Rhagfyr 1961 ac fe'i claddwyd ym mynwent Cefnddwysarn. Yn 1963, sefydlwyd Gwobr Llwyd o'r Bryn am adrodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol er cof amdano.

## Awdur

**David Tecwyn Lloyd**, (1914 - 1992)

## Ffynonellau


Gwybodaeth gan Dwysan Rowlands

adnabyddiaeth bersonol


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Lloyd

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 63726653

Wikidata: Q18535782


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu